


Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl i fyfyrrwyr amser llawn 2017/18



Mae Cyllid Myfyrrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Rydym yn darparu cyllid i fyfyrrwyr ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.


Mae Lwfansau Myfyrrwyr Anabl (DSAs) yn grantiau i helpu gyda chostau ychwanegol posibl i chi o ganlyniad i anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia neu ddyspracsia. Ni fydd angen ad-dalu DSAs ac mae modd iddynt helpu gydag:

- offer arbenigol y bydd angen i chi ei gael er mwyn astudio, fel meddalwedd gyfrifiadurol
- helpwyr anfeddygol, er enghraifft, rhywun i gymryd nodiadau neu i ddarllen
- costau ychwanegol i deithio i'ch prifysgol, eich coleg neu'ch lleoliad, o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd
- costau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch anabledd

Tri chyngor defnyddiol i helpu eich cais

I wneud yn siŵr bod eich Lwfansau Myfyrrwyr Anabl wedi eu talu cyn gynted â phosibl, dylech:

- Ymgeisio unwaith y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor.
- Archebwch eich Aseiad Anghenion Astudio cyn gynted ag y byddwch yn cael ein llythyr sy'n dweud wrthy'ch i wneud hynny.
- Archebu eich offer pan fyddwch yn cael eich llythyr Hawl i DSA.



Gwneud cais am DSAs

Beth i'w wneud a phryd i'w wneud

- 1 Os ydych am wneud cais am DSAs a chyllid i fyfyrwyr arall – ymgeisiwch ar-lein cyn gynted ag y bydd ceisiadau yn lansio. Gallwch glicio ar y dewis i wneud cais am DSAs yn y prif gais. Yna, byddwn yn anfon ffurflen gais atoch (DSASL) i'w llenwi a'i dychwelyd atom.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hefyd trwy droi at www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Os mai dim ond am DSAs ydych chi am wneud cais – dylech lawrlwytho ffurflen gais (DSA1F) o'n gwefan uchod. Llenwch a'i dychwelyd atom.

CYNGOR DEFNYDDIOL

Nid oes dyddiad cau i ymgeisio am Lwfansau Myfyrwr Anabl, ond gorau po gyntaf y byddwch yn ymgeisio, i wneud yn siŵr y bydd gennych bopeth yn ei le wrth i chi gychwyn eich cwrs.



- 2 Os ydych yn gymwys i gael DSAs, byddwn yn dweud wrthyich i drefnu Aseiad Anghenion Astudio er mwyn darganfod yr union offer a chymorth y byddwch ei angen.
- 3 Dylech archebu'ch Aseiad Anghenion Astudio cyn gynted ag y byddwch yn cael ein llythyr yn dweud wrthyich i drefnu un. I ganfod eich Canolfan Asesu Anghenion agosaf, ewch i www.dsa-qag.org.uk/cy/
- 4 Pan fyddwn yn cael canlyniadau eich Aseiad Anghenion Astudio, byddwn yn anfon llythyr Hawl i gael DSAs atoch i roi gwybod i chi pa offer arbenigol neu gymorth arall y gall DSAs dalu amdanynt. Yn ogystal, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch archebu offer neu drefnu cymorth arall.

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad, ewch i www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

 [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)

 twitter.com/SF_Wales

 [youtube.com/SFWfilm](https://www.youtube.com/SFWfilm)

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

cyllid myfyrwr **cymru**
student finance **wales**

